

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Ebrill 12, 2022 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Simon Evans, Llinos Williams, Gareth Ellis, Gethin Williams.
Hefyd Cyng. Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Geraint Rowlands, Gwenan Owen, Elfed ap Gomer.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 8, 2022.

Cynigwyd ac aelwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mawrth 8, 2022

Eitem 11.a. Llythyr ateb (11/3/2022) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi'r rheswm am osod conau ar ffordd Hirgwm.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Eitem 4. Eitem 4. Eitem 11.g. Llythyr (22/3/2022) oddi wrth Mr David P. Jones, Uwch Warden Y De, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod ei fod yn trafod y mater gyda'i gydweithwyr, ac mae am gysylltu a Gwenan Owen.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (10/3/2022) oddi wrth Teenage Cancer Trust. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (17/3/2022) oddi wrth Kids Cancer Charity. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION EBRILL 12, 2022

c. Llythyr (1/3/2022) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2022.

ii. Bil am £204.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2022 ac am roi gwybodaeth cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Balans yn y banc ar 29/3/2022: £8,922.43. (29/3/2021: £9,309.77).

6. Archwilio

a. Llythyr a Papurau (17/3/2022) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi manylion at archwiliad allanol 2021–2022.

Mae rhaid i'r Ffurflen Flynyddol 2022 gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i chymeradwyo gan y Cyngor erbyn Mehefin 30 2022.

Mae angen anfon y ffurflen wedi'i chwblhau a'i chymeradwyo, a gwybodaeth sydd ei angen, i Archwilio Cymru erbyn Gorffennaf 15, 2022.

I roi cyfle i'r cyhoedd archwilio cyfrifon a dogfennau eraill mae angen inni gyhoeddi Hysbysiad Archwilio erbyn Mehefin 20, 2022 ar ein hysbysfyrddau ac ar ein gwefan ac am oliaf 14 diwrnod; bydd hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd archwilio'r dogfennau o Gorffennaf 4 i Gorffennaf 29.

Mae Archwilio Cymru angen:

Ffurflen Flynyddol wreiddiol,

cysoniad banc ar 31 Mawrth 2022,

esboniad o'r amrywiadau rhwng 2020-21 a 2021-22 adroddwyd yn y ffurflen flynyddol eleni,

esboniad o reolaethau mewnol a threfniadau cymeradwyo'r Cyngor ar gyfer taliadau wneir gan y Cyngor,

copi o'r Hysbysiad Archwilio a ddangosir ar hysbysfwrdd a gwefan y Cyngor,

Mae Archwilio Cymru yn parhau archwilio dogfennau ar gyfer 2021 a blynyddoedd yngynt. Eu nod yw bydd holl ffurflenni blynyddol yn cael eu cyhoeddi yn y ddau fis nesaf. Nid ydynt wedi derbyn tua 125 o ffurflenni blynyddol ar gyfer 2020-21 a nifer sylweddol o ffurflenni blynyddol ar gyfer blynyddoedd yngynt.

Bydd archwiliad 2021/22 a 2022/23 yn Sylfaenol, a 2023/24 yn Llawn.

b. Penodwyd (31/3/2022) Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i archwilio dogfennau'r Cyngor.

7. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (24/3/2022) oddi wrth Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â Chasglu Gwastraff Masnachol o'r fynwent yn 2022/2023. Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr drwy'r flwyddyn, y ffi i'w dalu yw £388.00. Bydd anfoneb am y swm yn cael ei anfon ymhellach ymlaen.

Penderfynwyd derbyn y telerau.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/65/367A . Codi adeilad unllawr i'w ddefnyddio fel llety cathod masnachol. Dolfawr, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/4/2022)

2. NP5/65/274H. Codi adeilad ffram dur ar lawr caled presennol i ddibenion cadw offer amaethyddol, bwyd anifeiliaid a gwrtaith. Maes Hyfryd, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/4/2022)

9. Gohebiaeth

a. Dogfennau a llythyr (10/3/2022) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Etholiadau Cynghorau Tref / Cymuned bydd yn cael ei gynnal ar Mai 5, 2022. Mae angen dosbarthu'r paciau enwebu sy'n amgau i'r aelodau sy'n dymuno bod yn ymgeiswyr yn yr etholiad. Bydd angen eu dychwelyd rhwng 21/3/22 a 4:00yh 5/4/22 i Swyddfa'r Cyngor, Dolgellau neu trwy e-bost enwebiadau@gwynedd.llyw.cymru .

Anfonwyd y wybodaeth i'r aelodau.

b. Llythyr 18/3/2022) oddi wrth Swyddog Gwasanaeth Etholiadol, Cyngor Gwynedd gyda Rhybudd Etholiad Cynghorau Tref / Cymuned.

Rhodddwyd y Rhybudd ar ein hysbysfyrddau 23/3/2022, ac anfonwyd y Rhybudd i'r aelodau 27/3/2022.

Llythyr (29/3/2022)) oddi wrth Swyddog Gwasanaeth Etholiadol yn atgoffa'r aelodau i anfon eu ffurflenni i Swyddfa'r Cyngor.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION EBRILL 12, 2022

c. Llythyr (21/3/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mawrth ac Ebrill 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau

ch. Llythyr (30/3/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod:

1. Mae gwaith atgyweirio twll ger Ty'n Coed, Taicyhaeaf wedi ei gwblhau. Gweler Cofnodion Ionawr 11, 2022, Eitem d.
2. Mae gwaith o glirio'r cylfat ar gyfer Vanner wedi ei drefnu. Gweler Cofnodion Ionawr 11, 2022, Eitem f.
3. Mae gwaith ar Bont Hirgwm, Bontddu ar eu rhaglen ond does dim dyddiad penodol i wneud gwaith. Gweler Cofnodion Chwefror 8, 2020, Eitem 11.a.
Cafwyd wybod bydd gwaith yn cael ei wneud ar y bont wedi'r Pasg.
4. Mae gwaith symud pridd/dail wrth Pont Hirgwm a Hendre Forion wedi ei gwblhau. Gweler Cofnodion Chwefror 8, 2020, Eitem 11.b.
5. Mae'r coed wrth Pen Nebo, Ffordd Cwm Hirgwm wedi cael eu symud. Gweler Cofnodion Chwefror 8, 2020, Eitem 11.c.

d. Llythyr (4/4/2022) oddi wrth John Hughes yn rhoi gwybod ei fod yn ymddeol o'r Cyngor.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch i John am ei wasanaeth i'r Cyngor ac am ei ffyddlondeb i'r Cyngor. Roedd wedi bod yn aelod ers 2001.

dd. Llythyr (6/4/2022) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd. Maent:

1. yn cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus i Anghenion Tai. Maent angen barn trigolion Gwynedd ynghylch yr angen am dai yn y Sir. Amgáu gyda'r llythyr mae dolen i'r ymgynghoriad.
2. angen gwybodaeth am dai gwag sydd yn yr ardal. Amgáu mae dolen i roi gwybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Cafwyd wybod hon fydd cyfarfod olaf Peredur fel cynghorydd y gymuned ar Cyngor Gwynedd. Roedd Peredur yn ddiolchgar i'r aelodau'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth a'u ffyddlondeb i'r Cyngor, ac am eu diddordeb ym materion y gymuned. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar i Peredur am fod yn ffyddlon i'r Cyngor Cymuned ac yn cymryd ymlaen materion oedd angen sylw.

11. Materion yr Aelodau

b. Cafwyd wybod doedd Gethin Williams ddim yn sefyll fel Cynghorydd Sir i Abermaw lle roedd canmoliaeth am ei wasanaeth i'r dref.
